

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Tudful
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD
Diogelu Oedolion a Phlant sydd mewn
Risg
Cynhadledd Aml Asiantaeth Aseiad
Risg (MARAC)**

Cafodd yr hysbysiad hwn ei greu yn unol â Rheoliadau GDPR a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Y Tîm Rheoli Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN Data.Protection@merthyr.gov.uk,
01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu:	25 Mai 2019
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
Y Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Annabel Lloyd
Cyfeiriad:	Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth ar sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu ac yn prosesu'ch data personol yn ystod y Gynhadledd Aml Asiantaeth Aseiad Risg (MARAC). Mae MARAC yn gyfarfod aml asiantaeth sy'n ffocysu ar ddioddefwyr lle y gall ymarferwyr proffesiynol rannu gwybodaeth am achosion cam-drin domestig risg uchel a gosod cynllun rheoli risg yn ei le.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol yr ydym yn ei gasglu. Mae'n ofyniad i ni, o dan y ddeddfwriaeth diogelu data i'ch hysbysu o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau fod copi wedi ei ddiweddarau ar gael i chi cyn gynted ag y bydd hynny'n bosibl.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'r Polisi Safonau Preifatrwydd a'r hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl o'r modd yr ydym yn prosesu data. Gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn cyfeirio'n benodol at rannu data personol yn ystod y cynadleddau er mwyn gwella diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr; yn bennaf oedolion a'u plant.

Prif amcanion MARAC yw:

- pennu os yw'r cyflawnwr yn destun risg arwyddocaol i unrhyw unigolyn penodol neu i'r gymuned yn gyffredinol
- pennu agweddau sy'n weddill o'r aseiad risg sy'n ymwneud â'r dioddefwr, plant neu gyflawnwr sydd angen eu cyfieirio neu eu datblygu
- rhoi cynllun rheoli risg at ei gilydd sy'n darparu cymorth proffesiynol i'r rheini sydd mewn risg ac sy'n lleihau'r risg o niwed
- lleihau ailadrodd erledigaeth
- gwella atebolrwydd asiantaethol a gwella cymorth ar gyfer staff sy'n gweithio ar achosion risg uchel o gam-drin domestig

Cyfrifoldeb asiantaethau unigol yw gweithredu'n briodol; proses yw MARAC sy'n rhannu gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth ynghylch y modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn defnyddio'ch data personol ar gyfer dibenion diogelu, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd Diogelu.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr ac sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae nifer o adrannau gwahanol yn rhan o'r Cyngor a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar ein gwefan. Pan fyddwn yn sôn am yr adran, rydym yn cyfeirio at Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am brosesu eich data ar gyfer y gwasanaethau y manylir arnynt yn yr hysbysiad preifatrwydd.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i unigolion sydd wedi cael eu hasesu'n risg uchel neu sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig gan y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys oedolion a phlant sy'n byw yn eiddo'r cyflawnwr.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi apwyntio Swyddog Diogelu Data. Gellir cysylltu ag ef drwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Rheoli Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Ffôn: 01685 725000

2. Y DATA YR YDYM YN EI GASGLU AMDANOCH

Efallai y byddwn yn casglu, defnyddio, storio ac yn trosglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch fel ag y ganlyn:

Data hunaniaeth a chyswllt fel enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, statws priodasol, disgrifiadau cymeriad, disgrifiad corfforol, lluniau, fideos, rhif yswiriant cenedlaethol, rhif cyfeirnod yr awdurdod lleol, rhif y GIG sydd yn cael eu casglu wrth y dioddefwyr a'r cyflawnwyr honedig.

Data ariannol tebyg i gefndir ariannol, data incwm, arferion gwario a hanes prynu.

Data cyflogaeth fel manylion y cyflogwr, safle neu leoliad cyflogaeth, teitl y swydd, oriau gwaith, patrwm gweithio, cofrestriadau â chyrrff proffesiynol, manylion cyswllt y cyflogwr a fydd oll yn cael eu defnyddio yn ystod archwiliad pryder proffesiynol.

Data addysg fel lleoliad astudiaeth, cyrsiau, blwyddyn neu'r math o ddsbarth yn ein cynorthwyo wrth i ni ystyried pryderon sy'n ymwneud â phlant.

Mae categorïau arbennig o ddata personol, sensitif sydd angen lefel ddiogelu uwch. Rydym yn

casglu, storio ac yn defnyddio'r categorïau arbennig canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch teulu:

Data ffordd o fyw fel ethnigrwydd sy'n cynnwys hil, lliw, cefndir cenedlaethol neu ethnig, gogwydd rhywiol, manylion am eich bywyd rhywiol. Gallwn hefyd gasglu manylion am eich crefydd, aelodaeth undeb llafur, safbwyntiau, sylwadau a'ch bwriadau. Gallwn hefyd wneud cais i dderbyn eich statws mewnfudiad (a fydd yn gymorth i ni eich diogelu rhag trais ar sail balchder, priodas dan orfod, masnachu a/neu buteindra)

Data iechyd fel amodau iechyd meddwl neu gorfforol allai gynnwys hanes o gam-drin domestig. Gallwn hefyd wneud cais am fanylion sy'n ymwneud â phroblemau o gam-drin alcohol neu gyffuriau.

Data o droseddau'r cyflawnwr neu unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r dioddefwyr allai fod yn risg i eraill sy'n byw yn yr eiddo.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau yr ydym yn eu defnyddio i gasglu'r data yma amdanoch yn adran 3 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

3. SUT RYDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA

Byddwn yn casglu'ch data personol mewn nifer o ffyrdd. Ein prif ddull o gasglu bydd yn uniongyrchol oddi wrthydych chi pan fyddwch yn gwneud cais am gymorth gan MARAC. Os byddwch yn canfod eich hun mewn sefyllfa beryglus a bydd angen cymorth arnoch gan Heddlu De Cymru, gallant hwy hefyd rannu eu pryderon â MARAC er mwyn rhoi'r cyngor mwyaf addas i chi. Bydd eich data hefyd yn cael ei gasglu gan bartneriaid MARAC, yn benodol ar gyfer dioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig. Gallwn hefyd gael eich data gan asiantaethau partner eraill sydd yn barod yn darparu cymorth ar eich cyfer.

Byddwn ond yn defnyddio'ch data personol pan fydd y ddeddfwriaeth ddiogelu data yn caniatáu i ni wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a nodir o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a lle'n berthnasol, Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

Lle y bydd angen i ni gydymffurfio â'n gofynion cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol:

Deddf Troseddau Difrifol 2015

Deddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Lle y bydd angen gwneud hynny er budd y cyhoedd neu ar gyfer dibenion ffurfiol neu er mwyn ein galluogi i gydymffurfio â'r ymrwymadau a wneir gan Ganllawiau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig - Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru a Diogelu Plant a Phobl Ifanc sydd wedi cael eu Heffeithio gan Gam-drin Domestig.

Gallwn hefyd brosesu eich data personol lle y mae'n angenrheidiol i ni wneud hynny er ein budd ein hunain (neu drydydd parti) lle nad yw'ch buddiannau neu'ch hawliau sylfaenol yn cael eu

tanseilio.

4. SUT RYDYM YN RHANNU'CH DATA PERSONOL

Gallwn rannu'ch data personol â holl gyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnoch. Byddwn hefyd yn rhannu'r data yn fewnol ar draws adrannau eraill sy'n cynnwys:

Addysg
Lles Cymunedol
Cyfreithiol a Llywodraethu
Diogelu'r Cyhoedd
Gwasanaethau Tai

Byddwn ond yn rhannu'ch data â'n hadrannau mewnol er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn y cymorth sydd fwyaf addas. Bydd hyn yn cael ei wneud gan ystyried pob achos yn unigol ac ond yn cael ei wneud os na all cymorth gael ei ddarparu gan un o bartneriaid MARAC.

Bydd yr asiantaethau partner a fydd yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol yn cyfrannu at sicrhau diogelwch y dioddefwr a'r plentyn felly, mae'n hollbwysig bod grwpiau systemau cyfiawnder di-drosedd yno fel y gall unrhyw asiantaeth gyfieirio i MARAC. Gallai'r asiantaethau canlynol fod yn bresennol yn MARAC:

Heddlu De Cymru
CBS Rhondda Cynon Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Gwasanaeth Carchardai a Mechniaeth Ei Mawrhydi
New Pathways
Merthyr Tudful Mwy Diogel (SMT)
Llamau
BAWSO
Barod (Drugaid)
Dyfodol
Tai Hafod
Tai Gwalia
Cymdeithas Tai'r Rhondda
Cymdeithas Tai Newydd
Cymdeithas Tai Cynon Taf
Trivallis
Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Integredig Merthyr (MIDAS)
Gwasanaethau Cam-drin Sylweddau Integredig y Rhondda (RISMS)
Cymdeithas Tai Adref
Cymdeithas Tai Merthyr Tudful
Tai Merthyr Valleys
Cymorth i Fenywod RhCT
Hafan Cymru
Cymdeithas Tai Wales & West

Mae Protocol Rhannu gwybodaeth yn ei le sy'n cefnogi rhannu gwybodaeth rhwng y partïon a

restrir.

Gallwn hefyd rannu setiau cyflawn ystadegol o ddata personol, anhysbys sy'n gysylltiedig â hyn bob chwarter â Llywodraeth Cymru ar gyfer dadansoddi ymchwil ac ystadegau a gwella'r gofal a'r cymorth a ddarperir i unigolion yng Nghymru.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wlad sydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi gyn gynted ag y bo modd a gallwch ddisgwyl i'ch gwybodaeth bersonol gael ei ddiogelu yn yr un modd.

5. AM BA MOR HIR Y BYDDWN YN DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH

Byddwn ond yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am gyn hired ag y sydd ei hangen er mwyn cyflawni'r diben y cafodd ei chasglu, gan gynnwys ar gyfer bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu gofnodi. Bydd y wybodaeth bersonol a fydd yn cael ei chasglu yn unol â'r dull prosesu y manylir arno yn yr hysbysiad hwn yn cael ei chadw ar gyfer cyfnod y risg a fydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Gall pob sefydliad partner gael cyfnodau cadw gwahanol. Yn gyffredinol, bydd gwybodaeth ar ryw ffurf yn cael ei chadw am isafswm o 7 mlynedd o ddyddiad cau'r achos.

Mae manylion cyfnodau cadw gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd i'w weld ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

6. SUT RYDYM YN CADW'CH GWYBODAETH YN DDIOGEL

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch addas er mwyn osgoi fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu ei chyrru mewn unrhyw ddull anawdurdodedig, ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol i hyn, rydym yn cyfyngu mynediad i'ch gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd angen gwybod o ran busnes. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl ein cyfarwyddyd ac maent yn destun cyfrifoldeb cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn ymdrin ag unrhyw dor diogelwch a ddrwgdybir a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr o unrhyw dor diogelwch a ddrwgdybir lle y bydd angen i ni wneud hynny'n gyfreithiol.

7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data sy'n ymwneud â'ch data personol, gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch. Manylir ar yr hawliau yma yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio materion diogelu data'r DU:

Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), yr 2ail Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

8. MANYLION PELLACH

If you are looking for more information on how we process your personal data including data security, data retention, individual rights please access our full privacy policy. You can also obtain information directly from Information Commissioners Office website, www.ico.org.uk.